

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 4 Mai, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr J.M. Norman, J.W. Thomas a M.R. Wilkinson.

Hefyd yn bresennol: Swyddog Trwyddedu (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Cyfreithiol (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Bro Morgannwg), Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Gwasanaethau Cymdogaeth (Cyngor Bro Morgannwg); D. Abbott, J.M. Evans, Mr. J. McQuade, A. Obaid a Mr. M. Phipps.

Eglurodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y drefn i'w defnyddio ar gyfer y gwrandawriad a dywedodd fod copi o'r drefn ar gael o fewn yr agenda.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd J.W. Thomas gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Cais ar Gyfer Cymeradwyo Trwydded Safle The Old Bank, 1 Elm Grove Road, Dinas Powys, CF64 4AA –

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawriad yr Is-bwyllgor a gwahoddodd bob person i gyflwyno ei hun.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad, a ddywedodd mai cais dan Ddeddf Trwyddedu 2003 oedd hyn am Drwydded Safle yn Yr Hen Fanc, 1 Elm Grove Road, Dinas Powys, CF64 4AA, a gyflwynwyd gan Mr David Abbott ar ran Roberts McQuade Ltd, mewn perthynas â chyflenwi alcohol i'w

yfed ar y safle ac oddi arno, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 10:00 a 22:45 ac ar ddydd Sul rhwng 10:00 a 22:15.

Roedd papurau'r adroddiad yn cynnwys adroddiad pwyllgor, y ffurflen gais gan yr Ymgeisydd, ynghyd â sylwadau gan Awdurdod Cyfrifol (Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Iechyd yr Amgylchedd / Gwasanaethau Cymdogaeth) a chan Bersonau Eraill. Yn dilyn hynny, roedd yr Ymgeisydd wedi rhannu gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys deunydd hyrwyddo, dogfen archwilio gwaith gan Cerrig Property Developments, yn ogystal â thrawsgrifiad e-bost gyda Heddlu De Cymru, ac roedd helaethiad ar sylwadau Mr Evans, Person Arall, wedi'i roi.

Y rheswm yr oedd gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu hwn oedd nad oedd y Sylwadau uchod wedi'u tynnu'n ôl ac felly roedd angen gwrandawriad llawn.

Ar ôl i'r Swyddog Trwyddedu gyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd Mr. Phipps (cynrychiolydd / cyfreithiwr yr Ymgeisydd) i gyflwyno'r achos.

yn cael ei gynnig ar hyn o bryd gan safleoedd trwyddedig eraill yn yr ardal. Cyfeiriwyd at y décor, cynllun yr adeilad, y cwsmeriaid arfaethedig, sain (h.y. defnyddio cerddoriaeth dawel yn y lleoliad, ond dim adloniant byw) a darparu alcohol yn bennaf gyda chynigion bwyd, ond i gynnwys gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, fel y nodir yn y cais. Rhoddwyd enghraifft o werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle sef lle gallai cwsmer adael y safle gyda photel o win heb ei orffen. Ymdriniodd Mr. Phipps â'r pryderon a fynegwyd yn ysgrifenedig gan Mr Evans. (Person Arall) cyn y cyfarfod ac aeth ymlaen i fynd i'r afael ymhellach â'r pryderon hynny drwy gael eu holi'n uniongyrchol gan Mr Evans ar y pwyntiau hynny. Nododd Mr. Phipps fod y sylwadau gan yr Awdurdod Cyfrifol wedi'u cyfyngu i gwynion a dderbyniwyd heb unrhyw ganlyniad diffiniadwy iddynt. Nododd yr Ymgeisydd na allai'r sylwadau gan yr Awdurdod Cyfrifol godi materion ysmegu gan nad oedd y rhain wedi'u codi yn rhan o unrhyw sylwadau perthnasol flaenorol. Amlinellodd yr Ymgeisydd ddiffyg perthnasedd materion yn ymwneud â'r drefn gynllunio a godwyd gan Mr Evans mewn sylwadau ac mewn cwestiynau uniongyrchol. Cydnabuwyd bod y safle wedi bod yn gweithredu o'r blaen dan Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Nodwyd bod sylwadau'n cefnogi'r safle, er nad oeddent yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu, wedi'u cyflwyno, nad oeddent yn rhan o'r papurau.

Nododd yr Awdurdod Cyfrifol mai diben y sylwadau oedd tynnu sylw at gwynion a dderbyniwyd, ond nad oeddent wedi'u cadarnhau. Roedd ymchwiliadau gan gydwethiwr wedi'u cynnal ond nid oeddent wedi canfod niwsans hyd yma. Rhoddwyd sylwadau ar ansawdd yr amodau a'r atodlen weithredu a gynhyrchwyd. Cadarnhawyd mai mater i'r Awdurdod Cynllunio benderfynu arno oedd mesurau atal sŵn.

Gofynnodd Mr Evans gwestiynau i gyfreithiwr yr Ymgeisydd yn dilyn ei gyflwyniad agoriadol a gofynnodd cwestiynau pellach i gyfreithiwr yr Ymgeisydd i gael eglurhad ar bethau a ddeilliodd o'r cwestiynau hynny. Roedd ei bryderon yn ymwneud â phwy oedd yr asiant a pham yr oedd y golygiad wedi digwydd yn ogystal â materion yn ymwneud â mesurau atal sŵn yn yr adeilad, nifer y cadeiriau a'r byrddau ar y briffordd a'r ddarpariaeth ar gyfer ysmegu. Gofynnodd am gynllun y byrddau yn y safle. Siaradodd am faterion yn ymwneud â cherddoriaeth uchel ac esboniwyd y

broses o ddadroleiddio hyn iddo. Dywedodd fod y safle o fewn pellter cerdded i'w gartref. Cadarnhaodd ei fod wedi dweud popeth yr oedd am ei ddweud. Mynegodd siom fod y cyfarfod wedi'i gynnal o bell ond derbyniodd yr esboniadau a roddwyd am hyn ar ddechrau'r cyfarfod. Dywedodd ei fod yn gadael y cyfarfod. Gofynnwyd am eglurhad a chadarnhaodd Mr. Evans ymhellach ei fod am adael cyn i'r cyfarfod ddod i ben a gadawodd y cyfarfod.

Yn dilyn hyn, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i bob parti grynhoi neu ychwanegu at ei sylwadau.

Dywedodd Mr. Phipps fod yr Ymgeisydd yn awyddus i gael perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol a'i fod yn fwy na pharod i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a oedd gan y gymuned leol (fel Mr. Evans, y Person Arall yn y cyfarfod heddiw) ynghylch y cais hwn. Ychwanegodd, o ran y cyflwyniad a wnaed gan yr Awdurdod Cyfrifol, nad oedd y cwynion a amlinellwyd ynghylch sŵn wedi'u cadarnhau ac ar ôl i'r Awdurdod ymweld â'r lleoliad ar ddau achlysur, ni chanfuwyd unrhyw faterion. Cyfeiriodd hefyd at y sylwadau a godwyd gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r atodlen weithredu, a nododd fod y rhain yn gynhwysfawr.

Yn dilyn hyn, datgysylltodd yr Ymgeisydd a'i gynrychiolydd/cynrychiolwyr, yn ogystal â'r Swyddog Trwyddedu, a'r Awdurdod Cyfrifol o'r cyfarfod a'i adael, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat.

Gwnaeth y Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac ar ôl ystyried yr holl sylwadau

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais, fel y'i gwnaed.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â'r holl gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref o dan a.182 ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae datganiad polisi Trwyddedu'r Cyngor yn atgyfnerthu gofyniad cyfreithiol y Ddeddf Trwyddedu mai dim ond os ydynt yn hyrwyddo amcanion Trwyddedu y dylid cymeradwyo ceisiadau, sef

Atal Trosedd ac Anrhefn
Diogelwch y Cyhoedd
Atal niwsans cyhoeddus a
Diogelu plant rhag cael eu niweidio.

Mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu hefyd yn nodi:

"Mae'r Cyngor yn dymuno annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned mewn penderfyniadau Trwyddedu a rhoi cyfle i drigolion lleol ddweud eu dweud am benderfyniadau trwyddedu a allai effeithio arnynt."

O ran Siopau Trwyddedig, mae'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn nodi:

"Mae rhai siopau ac archfarchnadoedd sy'n gwerthu Alcohol wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, anhrefn ac aflonyddwch. Gall hyn gael ei achosi gan yfwyr stryd ac yfwyr dan oed yn ceisio cael, neu wedi cael alcohol o safle o'r fath. Oherwydd y pryderon hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried o ddifrif unrhyw sylwadau a wneir gan Awdurdodau Cyfrifol neu bobl eraill mewn perthynas ag effeithiau rhoi trwyddedau o'r fath yng nghyffiniau'r safle."

Rhoddyd y cyfrifoldeb dros weinyddu trwyddedu i awdurdodau lleol yn hytrach na chyrff chyfiawnder neu ryw gorff arall, oherwydd, yn ôl y Papur Gwyn (Cm 4696, 2000, para 123) roedd tri rheswm cymhellol dros wneud hynny

"Atebolrwydd: credwn yn gryf y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn atebol i drigolion lleol y mae'r penderfyniadau a wneir yn effeithio'n sylfaenol ar eu bywydau

Hygyrchedd: gall llawer o drigolion lleol gael eu llesteirio gan brosesau llys, a byddent yn fwy parod i geisio dylanwadu ar benderfyniadau os ydynt yn nwylo cynghorwyr lleol

Trosedd ac Anhrefn: Erbyn hyn, mae gan awdurdodau lleol rôl statudol arweiniol o ran atal trosedd ac anhrefn lleol, ac mae'r cysylltiad rhwng alcohol a throsedd yn ddadl berswadiol dros roi rôl arweiniol debyg iddynt gyda thrwyddedu."

Mae canllawiau a.182 y Swyddfa Gartref ym mharagraff 9.3 yn nodi:

"Pan fo sylwadau'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu yn cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol ynghylch amserlen weithredu arfaethedig a'u bod yn berthnasol, bydd disgresiwn yr awdurdod trwyddedu yn cael ei roi ar waith. Bydd hefyd ar waith os bydd person arall yn cyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu, nad ydynt yn wamal neu'n flinderus."

Mae'r canllawiau'n mynd ymlaen i ddweud ym mharagraff 9.12

".....dylai'r heddlu, fel arfer felly, fod yn brif ffynhonnell cyngor yr awdurdod trwyddedu ar faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu trosedd ac anhrefn....."

Mae paragraff 9.40 yn datgan

"Fel arall, gall yr awdurdod trwyddedu wrthod y cais ar y sail bod hyn yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu....."

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu hefyd yn ymwybodol o rwymedigaethau'r Cyngor o dan a.17 (1) y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n nodi:

“Heb ragfarnu unrhyw rwymedigaeth arall a osodir arno, bydd dyletswydd ar bob awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo i arfer ei amrywiol swyddogaethau gan roi sylw dyladwy i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol i atal,

- (a) trosedd ac anhrefn yn ei ardal (gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol),
 - (b) camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn ei ardal,
- ac
- (c) aildroseddu yn ei ardal.”

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Ymgeisydd fod ganddo hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr Ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawliau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai fynd am gyngor cyfreithiol annibynnol.